



DRINKING WATER INSPECTORATE

Area 5B, Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

Ymholiadau: 030 0068 6400

E-bost: dwi.enquiries@defra.gov.uk
Gwefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed: www.dwi.gov.uk

01 Mai 2020

Llythyr Cyngor yr Arolygiaeth Dŵr Yfed 02/2020

At Aelodau Bwrdd a Chysylltiadau Bob Dydd Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth a Chwmnïau Dŵr yng Nghymru a Lloegr

Annwyl Syr/Madam,

Llythyr Cyngor ynghylch cynnal ansawdd dŵr yfed wrth adfer cyflenwadau dŵr mewn adeiladau y bu'n rhaid iddynt gau dros dro oherwydd yr achosion o COVID-19

Diben

1. Diben y llythyr hwn yw rhoi cyngor i Adrannau'r Llywodraeth; Awdurdodau Lleol; cyflenwyr dŵr preifat; perchenogion tai; perchenogion/deiliaid adeiladau cyhoeddus; perchenogion/deiliaid eiddo diwydiannol, masnachol a busnesau manwerthu; a'r rhai sy'n gyfrifol am ganolfannau teithio fel meysydd awyr, ynghyd â'r wybodaeth angenrheidiol am gyflenwadau dŵr mewn adeiladau o ganlyniad i'r cyfyngiadau cenedlaethol yn sgil COVID-19.
2. Ni fwriedir i'r llythyr hwn ragdybio pryd y bydd y cyfyngiadau cenedlaethol yn cael eu newid na'r modd y gallent gael eu newid. Yn hytrach, bwriedir iddo sicrhau bod ansawdd dŵr yn cael ei gynnal wrth adfer cyflenwad dŵr mewn adeilad nad yw wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod.
3. Yn ogystal, mae'r llythyr hwn yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan gyflenwyr dŵr, sy'n gyfrifol am orfodi agweddau gwahanol ar Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (1999), ynghyd ag ansawdd a digonolrwydd cyflenwadau dŵr cyhoeddus.

Cyflwyniad

4. Mae'r amgylchiadau eithriadol sydd wedi deillio o'r cyfyngiadau cenedlaethol a roddwyd ar waith i ddelio â COVID-19 wedi arwain at gau llawer o safleoedd. Er nad yw'r broses o gau safleoedd yn

rhywbeth anghyffredin (er enghraifft, ar gyfer gwyliau ysgol a gwyliau diwydiannol), mae'r cyfnod y bu safleoedd ar gau a'r graddau y mae hynny wedi digwydd y tu hwnt i arferion a phrofiad arferol. Yn sgil hynny, mae'r Arolygiaeth wedi derbyn ymholiadau ynghylch ansawdd cyflenwadau dŵr yfed, gan gynnwys ceisiadau am gyngor ar adfer cyflenwadau pan gaiff y cyfyngiadau cyfredol eu diddymu.

5. Mae'r Llythyr Cyngor hwn yn rhoi canllawiau cyffredinol ar arferion gorau wrth adfer a chynnal cyflenwad dŵr mewn adeilad, pethau a gaiff eu diystyru'n aml am eu bod y tu hwnt i gyfrifoldeb y cyflenwr dŵr cyhoeddus.
6. Mae nifer o gyhoeddiadau, dogfennau cyngor a chanllawiau yn y maes hwn ac ni fwriedir i'r llythyr hwn ardystio, dilysu na disodli'r dogfennau hyn. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, darparwyd dolenni i gyngor o'r fath ar gyfer amgylchiadau penodol a sectorau o'r economi. Lle y bo'n berthnasol, dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch cyngor penodol at yr awdurdod rheoleiddio neu'r corff masnach priodol.

Cyngor Cyffredinol

7. Dylai pob cyflenwr a defnyddiwr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal cyflenwad dŵr yfed glân a diogel at ddibenion iechyd y cyhoedd, ac sydd o ansawdd derbyniol i ddefnyddwyr.
8. Mae dyletswydd ar y rhai sy'n cyflenwi dŵr i aelodau o'r cyhoedd i sicrhau bod y dŵr hwnnw'n ddihalog at ddibenion domestig fel yfed, golchi a pharatoi neu goginio bwyd. Lle y ceir methiant neu lle mae methiant yn debygol oherwydd system ddsbarthu'r adeilad, rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am reoli cyfleusterau'r adeilad gymryd camau priodol i liniaru'r methiant. Lle y caiff dŵr ei gyflenwi gan gyflenwr dŵr, bydd Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (1999) yn gymwys, sy'n orfodadwy gan y cyflenwr dŵr. Lle y caiff dŵr ei gyflenwi drwy gyflenwad preifat, bydd Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (2018) a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) (2016) (fel y'u diwygiwyd) yn gymwys, sy'n orfodadwy gan yr Awdurdod Lleol (ALI).
9. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi cyhoeddi canllawiau ar [ddiogelwch dŵr mewn adeiladau](#), sy'n nodi y gall dyluniad a rheolaeth wael o ran systemau dŵr mewn adeiladau arwain at achosion o glefyd. Yn fwy diweddar, mae'r Gymdeithas Ewropeidd Microbioleg Glinigol a Chlefydau Heintus wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau sydd wedi'u hanelu at [sicrhau bod systemau dŵr adeiladau](#) yn ddiogel yn ystod yr argyfwng COVID-19 ac wedi hynny. Er mai nod y canllawiau diweddarach hyn yw atal *Legionella*, mae'r cyngor yn berthnasol mewn cyd-destun ehangach.
10. Gellir rhannu peryglon mewn adeiladau yn fras yn beryglon microbaidd, cemegol (gan gynnwys diheintio) a chyfluniad, a dylai rhai ystyriaethau sylfaenol gynnwys y canlynol:

- a. Microbaidd:
 - i. Llwybr halogi a halogiad ysgarthol; bacteria a feirysau sy'n deillio o ysgarthion; bacteria amgylcheddol; bacteria/ffyngau pydredd;
 - ii. Aildyfiant; annhyfiant; bioffilmiau a achosir gan facteria heterotroffig;
 - iii. Mannau lle y ceir halogi gan ddefnyddwyr fel peiriannau dŵr, ffynhonnau dŵr a pheiriannau gwerthu hylifau a all gael eu halogi â feirysau, bacteria a ffyngau e.e. COVID-19;
 - iv. Organebau sy'n peri pryder difrifol e.e *Legionella spp.*;
 - v. Organebau niwsans sy'n achosi afliwio, difwyno neu staenio gan facteria sy'n gwaddodi haearn, e.e. *Crenothrix*, *Gallionella*, *ferruginea*, *Leptothrix*;
 - vi. Blas ac arogl, gan gynnwys polysylffidau dimethyl, e.e. *Pseudomonas*, *Flavobacterium* ac *Aeromonas*, *Penicillium caeseicolum*; neu hydrogen sylffid drwy *Clostridium*, *Bacillus* *Desulfovibrio* neu *Desulfotomaculum*;
 - vii. Llai o gloraminau i glorin rhydd a nitraid drwy nitreiddio bacteria.
- b. Cemegol
 - i. Trwytholchi cadmiwm, copr, plwm, nicel neu sinc;
 - ii. Cyfansoddion polymerig ac elastomerig;
 - iii. Diheintyddion a chyfarpar a ddefnyddir wrth ddefnyddio diheintyddion;
 - iv. Cemegion gwrthgennu, oeryddion, tanwyddau gwresogi, olewau a chemegion eraill a ddefnyddir mewn boeleri, peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi ac ati;
 - v. Cyfansoddion organig fel BTEX, MTBE.
- c. Cyfluniad
 - i. Dyluniad deunyddiau, pibellau a ffitiadau (gan gynnwys tapiâu);
 - ii. Cyrydiad galfanig;
 - iii. Ôl-lif, mudo, croesgysylltu, falfiau, bylchau aer, pengaeadau, marciau;
 - iv. Arbenigedd a chymhwysedd gweithredwyr, a threfniadau cytundebol;
 - v. Tymheredd, pH, lliw, ffynhonnell;
 - vi. Dyfeisiau trin dŵr fel meddalyddion, hidlwyr, dyfeisiau gwrth-osmosis.

11. Ar ôl cyfnod estynedig o drosiant isel neu pan na fydd unrhyw alw wedi bod, gall ansawdd cyflenwad dŵr sydd wedi'i adael mewn tanciau storio a phibellwaith ddirywio. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd y rhwydwaith domestig na'r cyfarpar a ddefnyddir i drin, dosbarthu a chyflenwi dŵr i'r tap neu'r allfa yn gweithio yn ôl y disgwyl. Mae'n bosibl na fydd y risgiau hyn wedi'u hystyried yn flaenorol wrth gynnal asesiad risg o adeilad neu systemau domestig neu, yn fwy penodol, Gynllun Diogelwch Dŵr adeilad (bWSP).

12. Gall y dirywiad fod yn waeth fyth ar ôl i adeilad fod ar gau am gyfnod estynedig, a gall gyflwyno risgiau difrifol na ellir rhoi cyfrif amdanynt o ran iechyd. Gallai enghreifftiau nodweddiadol o broblemau o'r fath gynnwys lefelau gwenwynig o fetelau fel plwm a nicel yn cael eu trwytholchi; *Legionella* yn cronni mewn tanciau, gan greu peryglon anadlol difrifol; crynhoad o broblemau o ran blas neu arogl drwg sy'n peri pryder i ddefnyddwyr neu sy'n peri iddynt wrthod defnyddio'r dŵr; lefel wenwynig o ddiheintyddion yn cronni oherwydd bod chwistrell yn gollwng; methiant falfiau nas defnyddir sy'n caniatáu i ysgarthion ôl-lifo o doiledau; lefelau gwenwynig o gynhyrchion petrolewm yn mudo'n anhysbys drwy bibellau plastig; a hidlwyr sydd wedi sychu nad ydynt efallai yn effeithiol mwyach neu sydd wedi'u halogi'n ddifrifol. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr.
13. Wrth adfer cyflenwad dŵr, mae angen ystyried graddfa a chymhlethdod y cyfleusterau sy'n cael eu rheoli, gan gynnwys anghenion rhannau pwrpasol arbenigol o'r cyfleusterau y gall fod ganddynt broffil risg uwch.
14. Fel arfer, o dan amgylchiadau arferol, dylai'r broses o gyflenwi dŵr i gartrefi, ac adeiladau cyhoeddus, masnachol a manwerthu ac eiddo eraill sy'n llai o faint, gynnwys fflysio tanciau storio a phibellwaith o leiaf er mwyn cyflwyno dŵr ffres i'r system cyn i'r defnyddiwr gael mynediad iddi. Fodd bynnag, bydd hyn yn amrywio o system i system, er enghraifft, bydd angen i systemau dŵr poeth gael eu codi i dymheredd sy'n fwy na 60°C, ac efallai y bydd angen diheintio'r system gyfan mewn rhai amgylchiadau er mwyn sicrhau bod 50mg/L o glorin rhydd. Dylai rheolwyr adeiladau geisio cyngor lle y bo angen gan blymwyr a gymeradwyr o dan gynllun WaterSafe neu, mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth, gan weithiwr proffesiynol profiadol a chymwys, a ddylai gynnal bWSP er mwyn nodi risgiau newydd, risgiau sydd wedi newid neu risgiau na roddwyd cyfrif amdanynt yn flaenorol a rhoi cyngor ar sut i'w lliniaru.
15. Lle y caiff y broses fflysio ei chynnal o'r cyflenwad cyhoeddus mewn adeiladau neu gyfleusterau o faint sylweddol, cynghorir rheolwyr adeiladau i weithio ar y cyd â'r cyflenwr dŵr lleol er mwyn osgoi materion digonolrwydd yn yr ardal leol a rheoli'r broses o waredu symiau mawr o ddŵr, diheintyddion a chemegion eraill.

Risgiau Newydd

16. Wrth gynnal bWSP, dylid ystyried risgiau newydd sy'n deillio o COVID-19. Yn benodol, ffynhonnau dŵr yfed/mannau yfed dŵr cymunedol lle y gallai'r clefyd gael ei drosglwyddo o un person i'r llall, gan beri risg newydd o bosibl. Dylid ystyried dyluniad yr allfa er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r geg yn benodol. Yn ddelfrydol, dylai'r allfa fod yn llifo'n rhydd heb sblasgefn a dylai fod digon o le ar gyfer gwydryn neu botel y gellir yfed ohono/ohoni. Efallai y byddai'n ddoeth cyflwyno system fflysio fer rhwng defnyddwyr fel mesur

rhagofalus ychwanegol.

17. Lle y caiff risg newydd ei nodi, dylid ymgynghori ag unigolyn cymwys sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ystyried a yw'r dyluniad yn briodol ac a yw'r systemau glanhau a'r defnydd dilynol yn effeithiol o ran lliniaru'r risgiau. Er enghraifft, dylai system lanhau fod yn effeithiol yn erbyn halogi a dylid ei rhoi ar waith yn ddigon aml. Fodd bynnag, dylai unrhyw gemegion glanhau gael eu defnyddio yn y fath fodd fel nad ydynt yn difrodi'r allfa nac yn gadael gweddillion sydd, ynndynt hwy eu hunain, yn gadael staen neu'n niweidiol i'r sawl sy'n ei defnyddio maes o law.

Materion Eraill

18. Mae'r Arolygiaeth yn rhoi cyngor ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed drwy daflenni cyngor i ddefnyddwyr y gellir cael gafael arnynt ar ei gwefan.

19. Er hwylustod, yn Atodiad A ar ddiwedd y Llythyr Cyngor hwn, nodir dolenni i ffynonellau cyngor amrywiol ar gyfer sectorau allweddol o'r economi, a gall yr Arolygiaeth ychwanegu at y rhestr hon yn rheolaidd yn ôl yr angen. Hoffem nodi y dylai perchenogion/deiliaid eiddo yn y sectorau canlynol yn benodol sicrhau bod eu hamserlenni cynnal a chadw cychwynol ar gyfer eu systemau cyflenwi dŵr yn ystyried y cyngor hwn.

- Trafnidiaeth, gan gynnwys porthladdoedd, meysydd awyr a gweithredwyr rheilffyrdd;
- Hamdden, gan gynnwys gwestai a darparwyr llety eraill fel parciau gwyliau, safleoedd gwersylla a llety gwyliau ar osod; a chanolfannau ffitrwydd a phyllau nofio;
- Eiddo masnachol;
- Eiddo manwerthu;
- Eiddo diwydiannol, gan gynnwys cyfleusterau dros dro fel safleoedd adeiladu;
- Iechyd, gan gynnwys meddygfeydd, deintyddfeydd a chlinigau;
- Addysg a gofal plant, gan gynnwys meithrinfeydd, ysgolion, colegau a phrifysgolion;
- Adeiladau cyhoeddus eraill, gan gynnwys swyddfeydd, neu eiddo lle y defnyddir cyflenwadau dŵr wrth ddarparu gwasanaeth, fel gweini diodydd a lluniaeth, neu mewn siopau trin gwallt.

Dyletswyddau Cyflenwyr Dŵr

20. Atgoffir cyflenwyr dŵr bod dyletswydd statudol arnynt i'w gwneud yn ofynnol i bob perchennog/deiliad eiddo gynnal ansawdd ei gyflenwadau dŵr, ac i osgoi halogi'r cyflenwad cyhoeddus. Gall fod yn ofynnol i gyflenwyr osod gofynion ar berchenogion/deiliaid i wneud gwaith ar eu system gyflenwi, os bydd gofynion i sicrhau dŵr dihalog yn cael eu peryglu neu eu bygwth, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt gan

Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (1999). Yn ogystal, dylai perchenogion/deiliaid eiddo dibreswyl fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau i gydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, yn enwedig deddfwriaeth sy'n gymwys i asesiadau risg ar gyfer *Legionella*.

21. Mae cyflenwyr dŵr yn ymwybodol o'u dyletswyddau i fabwysiadu dull ataliol o ddiogelu iechyd y cyhoedd, ac mae ganddynt weithdrefnau a phrosesau sefydlog ar gyfer rheoli problemau a all godi yn eu systemau cyflenwi oherwydd trosiant isel. Atgoffir cyflenwyr i wneud y canlynol:
- adolygu eu hasesiadau risg yn sgil unrhyw newidiadau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, er enghraifft, newidiadau mewn galw neu batrymau defnydd mewn gweithfeydd trin dŵr, ac ar gyfer unrhyw waith cyfalaf y gall fod wedi cael ei ohirio lle mae dŵr wedi bod ar gael i'r cynllun;
 - ystyried a allai'r newidiadau hyn gael effaith negyddol ar ansawdd dŵr, er enghraifft: cynyddu'r risg o afliwiad oherwydd bod gwaddodion yn cronni yn y prif bibellau; llai o glorin gweddilliol oherwydd bod llai o drosiant mewn rhwydweithiau storio a chyflenwi; neu pH uwch mewn prif bibellau sydd wedi'u leinio â sment oherwydd bod mwy o gysylltiad wedi bod;
 - sicrhau bod cynlluniau ar waith i weithredu cyn bod unrhyw faterion o'r fath yn codi, er enghraifft drwy fflysiu'r system, cynyddu trosiant neu roi mesurau addas eraill ar waith er mwyn sicrhau nad yw ansawdd y dŵr yn gwaethygu;
 - ystyried effeithiau posibl cyfnod storio estynedig mewn eiddo busnes a rhoi cyngor priodol i'w defnyddwyr, a manwerthwyr dibreswyl, er mwyn sicrhau bod cyflenwadau dŵr yn aros yn ddihalog.

Dyletswyddau Awdurdodau Lleol

22. Atgoffir Awdurdodau Lleol bod ganddynt ddyletswydd statudol i'w gwneud yn ofynnol i berchenogion/deiliaid eiddo â chyflenwadau dŵr preifat y mae'r deddfwriaeth yn gymwys iddynt gynnal ansawdd eu cyflenwadau. Cynghorir ALLau i ystyried a oes angen iddynt fynd ati i ailwerthuso unrhyw rai o'u hasesiadau risg oherwydd yr amgylchiadau newidiol sy'n deillio o COVID-19. Os felly, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, gall fod angen i ALLau osod gofynion ar berchenogion/deiliaid i wneud gwaith ar eu system gyflenwi, os bydd gofynion o ran sicrhau dŵr dihalog yn cael eu peryglu neu eu bygwth, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt gan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (2018) a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) (2016) (fel y'u diwygiwyd). Dylid parhau i roi sylw penodol i gyfleusterau cynhyrchu bwyd â chyflenwadau preifat, a dylai gweithredwyr cyfleusterau o'r fath fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau i gydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth arall.

Dyletswydd Reoliadol

23. Atgoffir cyflenwyr dŵr eu bod yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu dŵr digonol a dihalog bob amser o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 yng Nghymru a Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn Lloegr. Yn yr un modd, mae ALLau yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflenwadau dŵr preifat o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (2018) a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) (2016) (fel y'u diwygiwyd). Nid yw'r canllawiau a ddarperir yn y Llythyr Cyngor hwn yn rhyddhau cyflenwyr nac ALLau o'r rhwymedigaethau hyn.

24. Dim ond yn ystod cyfnod COVID-19 y bydd y Llythyr Cyngor hwn mewn grym, fel y'i dynodwyd gan y Llywodraeth.

Ymholiadau

25. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Llythyr Cyngor hwn at Jacky Atkinson yn Jacqueline.Atkinson@defra.gov.uk .

Bydd copiâu o'r llythyr hwn yn cael eu hanfon at Christine McGourty, Prif Weithredwr, Water UK; Jan Dixon a Kirstin Green, Dirprwy Gyfarwyddwyr Ansawdd Dŵr, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; Eifiona Williams, Tîm Rheoli Dŵr, Llywodraeth Cymru; Sue Petch, Rheoleiddiwr Ansawdd Dŵr Yfed ar gyfer yr Alban; Catriona Davis, Arolygiaeth Dŵr Yfed Gogledd Iwerddon; Tony Smith a Chadeiryddion y Cyngor Defnyddwyr Dŵr Rhanbarthol; Alison Cullen, Ofwat; Simon Moody, Asiantaeth yr Amgylchedd; Benedict Duncan, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd; Stephen Robjohns yn Public Health England; ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr.

Yn gywir



Marcus Rink
Prif Arolygydd Dŵr Yfed

Atodiad A i Nodyn Cyngor 02/2020: Dolenni i gyngor

Nid yw'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gyfrifol am gynnwys na chywirdeb y dolenni canlynol a ddarperir er gwybodaeth yn unig

Trafnidiaeth:

Rheilffyrdd

Canllawiau i weithredwyr rheilffyrdd – darparu dŵr yfed ar drenau – <https://www.raildeliverygroup.com/component/arkhive/?task=file.download&id=469775986>

WRAS “The Use of Public Water Supplies in Railway Premises” https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/ign/ign_railways_9-06-03.pdf/

Harbyrau, marinâu a dyfrffyrdd mewndirol, porthladdoedd môr a meysydd awyr

WRAS – https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/ign/backflow_prevention_guidance_coastal_and_inland_waterways_v1_september_2019_24.09.19.pdf/

Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd – yn cwmpasu porthladdoedd môr a meysydd awyr – hafan – <http://www.porthealthassociation.co.uk/>

Porthladdoedd môr – <http://www.porthealthassociation.co.uk/seaports/water-quality/> dolen i ansawdd dŵr a *Legionella*

Meysydd awyr – <http://www.porthealthassociation.co.uk/airports/>

Addysg

WRAS – https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/booklets/school_booklet_final_7.12.18.pdf/

Yr Adran Addysg, Cyngor ar safonau ar gyfer safleoedd ysgol – <https://www.gov.uk/government/publications/standards-for-school-premises>

Adeiladau cyhoeddus

Mae Rheoliadau Adeiladu a Rheoliadau Ffitiadau Dŵr yn gymwys.

BSEN 806-5 Manyleb ar gyfer gosodiadau y tu mewn i adeiladau sy'n cludo dŵr i'w ddefnyddio gan bobl – gweithredu a chynnal a chadw. Mae'r safon hon yn

darparu gofynion penodol wrth weithredu/cynnal a chadw gosodiadau y tu mewn i adeiladau. Mae adran 6 o'r ddogfen hon yn manylu ar y broses weithredu, mae adran 12 yn manylu ar waith cynnal a chadw, mae Atodiad A yn nodi pa mor aml y dylid archwilio'r gosodiadau a'u cynnal a'u cadw ac mae Atodiad B yn manylu ar weithdrefnau arolygu a chynnal a chadw.

BS 8558 Canllaw i ddylunio, gosod, profi a chynnal a chadw gwasanaethau sy'n cyflenwi dŵr ar gyfer defnydd domestig mewn adeiladau a'u cwrtiau.

Canllawiau ar BSEN 806 Mae'r safon hon yn rhoi canllawiau ychwanegol ar arferion gorau ac mae adran 6 yn manylu ar wiriadau ansawdd dŵr ar gyfer dŵr sy'n cael ei storio.

Cyfleusterau hamdden

Meysydd chwaraeon –

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/booklets/sports_grounds.pdf/

Stablau

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/booklets/stables.pdf/

Pyllau nofio

<https://www.spata.co.uk/> dyma'r sefydliad masnach ar gyfer pyllau nofio ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer COVID-19 yn ogystal â chanllawiau cyffredinol.

[Grŵp Cynghori ar Drin Dŵr Pyllau](#) – Sefydliad aelodaeth anfasnachol, annibynnol yn y DU yw PWTAG, ac mae'n ymrwymedig i godi safonau ym maes trin dŵr pyllau.

Amaethyddiaeth

Eiddo amaethyddol –

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/booklets/wras_agricultural_premises_2017.pdf/

Llety gwyliau

Parciau gwyliau a phreswyl –

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/booklets/holiday_parks.pdf/

Atal carafanau gwyliau rhag cael eu difrodi gan rew

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/info_leaflets/winterising_by_draining_down.pdf/

Y Cyhoedd

Gofalu am ddŵr yn eich cartref –

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/public_in_page/water_in_the_home_2015.pdf/

Cadw dŵr yn ddiogel mewn eiddo –

https://www.wras.co.uk/downloads/public_area/publications/general/info_leaflets/keeping_water_safe_in_premises_policy_dec2013.pdf/

Dŵr mewn tanciau, cyfleusterau storio a ffitiadau – taflen yr Arolygiaeth i ddefnyddwyr, sy'n cynnwys manylion ar gyfer landlordiaid –

<http://dwi.defra.gov.uk/consumers/advice-leaflets/tanks.pdf>

Rheoliadau adeiladu – Dogfen gymeradwy G, hylendid, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr –

<https://www.gov.uk/government/publications/sanitation-hot-water-safety-and-water-efficiency-approved-document-g>

Nodyn briffio Water UK ar adfer cyflenwadau dŵr yfed mewn adeiladau a rhwydweithiau (ychwanegwyd at Atodiad A ar 15/5/2020) –

<https://www.water.org.uk/publication/recovering-drinking-water-supplies-in-buildings-and-networks-after-prolonged-inactivity/>